



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL30AB
Maeres Gyng Penny Andow Dirprwy Faer Gyng Chris Jones**

**CYFARFOD ARBENNIG CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN
AM 6:00YH AR NOS IAU, AWST Y 5^{ED}
Cofnodion y cyfarfod**

Presennol: Cadeirydd: Maeres Penny Andow; Cyng. Carol Gell; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes Dirprwy Faer Gyng Christopher Jones; Cyng Nia Jones (roedd yn rhaid iddi adael ar ôl eitem 1); Cyng Iolo Kars Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Delohne Merrell

1. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod

Soniwyd, er nad oedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu tan ar ôl gwyliau'r haf yn wreiddiol, doedd dim modd gadael y materion brys diweddar tan fis Medi cyn mynd i'r afael gyda nhw. Gan fod y Cyngor Tref wedi penderfynu cyfarfod, cytunwyd y dylid dwyn y ystyriaeth y cais cynllunio gan fod gofyn i'r Cyngor gyflwyno sylwadau cyn Awst y 18^{fed}.

2. Bu i'r Dirprwy Faer Gyng Chris Jones Gadeirio nes i'r Faeres gyrraedd y cyfarfod

3. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Cyng Laura Fielding, Cyng Rob Jewell, Cyng Christine Roberts, Cyng Gareth Wyn Jones

4. Derbyn datganiadau o ddiddordeb –

Yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol

Bu i'r Cyngor C Gell ac A Hinchcliff ddatgan diddordeb yn Eitem 5 gan eu bod yn aelodau o Bwyllgor y Clwb Hwyllo

5. Trafod a chymeradwyo cynlluniau i brynu cyfarpar diogelwch ar gyfer safle'r promenâd

Roedd yn drist iawn gan y Cyngor Tref glywed y newyddion trychinebus am farwolaeth Jenna Jones yn dilyn digwyddiad yn y môr ger y lanfa. Mae'r Preswylwyr a'r Cyngorwyr Tref yn credu'n gryf bod angen gwella'r arwyddion a'r cyfarpar diogelwch yn yr ardal felly roedd gofyn i'r Cyngor fynd ati i drafod y mater. Bu i'r Clwb Hwyllo gynnig trydan i osod cabinet diffibriliwr ond nid ydyn nhw'n fodlon cymryd gwarchodaeth drosto. Mae angen cynnal trafodaethau pellach gyda'r holl randdeiliaid cyn penderfynu gosod y cabinet. Mae Clerc y Dref wedi cysylltu gydag Ambiwlans Cymru ac fe baratôdd y costau am ddiffibriliwr fel a ganlyn:

Zoll Aed Plus - £800.00 + taw

Dewis 1 – Cabinet wedi'i gynhesu sy'n cloi gyda chod allwedd £423.20 + taw (soniwyd bod hyn yn bwysig ar gyfer diffibrilwyr oherwydd fe allai oerfel y gaeaf ddiraddio'r cyfarpar)

Dewis 2 – Cabinet wedi'i gynhesu sy'n cloi heb god allwedd £391.20 + taw

Costau danfon £15.00 + taw

Mae'r costau gosod trydanol rhwng £175.00 / £230.00 + taw

Cafodd y Clerc hefyd ei hysbysu am gyllid posibl ar gyfer cyfarpar 'Safety at Sea' ac fe ofynnodd am ragor o wybodaeth am hyn.

Yn dilyn y drafodaeth, fe gytunwyd ar y canlynol:

1. Clerc i fynd rhagddi i brynu a gosod y cyfarpar yn ogystal â chydweithio gyda'r holl rhanddeiliaid gan gynnwys teulu Jenna os hoffan nhw fod ynghlwm â'r gwaith.
2. Clerc i sicrhau caiff y wybodaeth am holl ddiffibrilwyr y pentref ei hysbysebu'n amlwg mewn siopau a manau cyhoeddus fel bod ymwelwyr a'r preswylwyr yn ymwybodol.
3. Bydd y Cyng Claire Hughes yn uwch lwytho'r holl wybodaeth am y diffibriliwr i Google fel rhan o ymarfer rhannu gwybodaeth bellach.

Cynigwyd gan y Cyng C Jones Eiliwyd gan y Cyng D Merrell Pawb yn gytûn gyda'r penderfyniad i gymeradwyo a gwneud nodyn ohono

5. Trafod a chymeradwyo'r grant i GBSC i gynorthwyo gyda'r prosiect i adfer Nant y Coed Bu i Wasanaethau Cefn Gwlad CBSC gysylltu i ofyn byddai'r Cyngor Tref yn fodlon cyfrannu tuag at brosiect adfer Nant y Coed. Bu CBSC yn aflwyddiannus gyda'u hymdrechion i godi'r cyllid hanfodol ar gyfer y dyfynbrisiau maen nhw wedi eu derbyn. Bu i Dîm Ymgynghori CBSC lunio datrysiad pwrpasol i'r 3 problem sydd wedi'u hadnabod yn eu trefn o ran blaenoriaeth:

- a) Glan yr afon sydd wedi'i ddifrodi'n ddrwg a rhan o'r llwybr sydd angen ei adfer
- b) Gosod carreg fawr ychwanegol i ran o'r llwybr sy'n debygol o gael ei ddifrodi gan lifogydd
- c) Gosod cerrig camu coll i'r ddau ran

Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau tendro i gyflawni gwelliannau i'r llwybr wedi bod erbyn hyn. Mae CBSC yn gwybod yn sicr rwan bod y costau ynghlwm yn uwch nag ein hamcan gostau a hefyd yn uwch na'r Grant i Wella'r Llwyr Cerdded sy'n £36,121 (i'w wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon). Mae cyfnod byr o dair wythnos wedi'i neilltuo lle mae'n rhaid cychwyn ar y gwaith (yn cychwyn ar Awst y 30ain) ac mae'r diffyg yn £63,879.

Bu i'r Tîm Rheoli Argyfyngau drafod y mater hwn ond roedden nhw o'r farn y dylai'r Cyngor Tref llawn drafod y gwariant arfaethedig. Mae'r Cyngor Tref wedi cynnig £5000 amodol o'u cronfa prosiectau wrthgefn. Soniodd yr Adran Gwasanaethau Cefn Gwlad y byddai'r swm hynny'n gymorth gan fod modd ei bennu fel cyllid cyfatebol yn eu ceisiadau am gyllid. Mae'r swm yn gymedrol o ystyried diffyg y prosiect. Fodd bynnag cafodd ei grybwyll ein bod ni'n Gyngor Tref cymharol fach ac mae'r swm yn cynrychioli 5% o gyfanswm ein praesept. At hyn, mae'n bosib y bydd angen i GBSC ofyn am ragor o gyfraniadau wrth i'r gwaith ddatblygu.

Yn dilyn y drafodaeth, cytunwyd ar y canlynol:

1. Dylai Clerc y Dref gynnig y £5000 ar yr amod y caiff ond ei dalu unwaith y bydd tystiolaeth amlwg bod y prosiect yn digwydd a'i fod yn mynd tuag at brosiect adfer Nant y Coed.
2. Dylai'r Clerc ofyn i gynnwys y Cyngor Tref fel rhanddeiliad a derbyn gwybodaeth am ddatblygiad y gwaith gyda chadarnhad y byddai'r gwaith yn effeithiol er mwyn datrys y broblem yn yr ardal.

Cynigwyd gan y Cyng D Merrell Eiliwyd gan y Cyng A Hinchliff Pawb yn gytûn gyda'r penderfyniad i gymeradwyo a gwneud nodyn ohono

6. Trafod cais cynllunio 0/48723

Bu i'r Cyng Carol Gell a'r Cyng Andrew Hinchliff ddatgan diddordeb a ni fuon nhw'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

Roedd y cais gan Glwb Hwyllo Llanfairfechan i ymestyn y parc cychod ar y promenâd.

Bu i aelodau'r pwyllgor, Comodor Kate Ingham a'r Ysgrifennydd Lance Jones gyflwyno gwybodaeth am y cais eisoes. Gallwch fwrw golwg ar y wybodaeth ar-lein yma:

<https://www.llanfairfechantowncouncil.co.uk/delwedd/resources/minutes-7th-april-1.pdf>

<https://www.llanfairfechantowncouncil.co.uk/delwedd/resources/minutes-9th-june-2.pdf>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau pellach at Glwb Hwyllo Llanfairfechan ac adran gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Soniwyd nad oedd modd i'r Cyngor Tref wrthwynebu ceisiadau cynllunio ond roedd modd iddyn nhw wneud sylwadau gan gydymffurfio gyda'r ddeddf gynllunio. Yn dilyn y drafodaeth, cafodd datganiad i Wasanaethau Cynllunio Conwy ei baratoi:

Mae'r Cyngor Tref yn cydnabod ei fod yn ddatblygiad sylweddol a byddwn yn disgwyl y canlynol:

1. eu bod nhw wedi casglu barnau'r preswylwyr ac wedi dwyn i ystyriaeth unrhyw bryderon.
2. bod yna gynllun rheoli parhaus ar waith ar gyfer y prosiect er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r holl bryderon tua'r dyfodol ynghylch iechyd, diogelwch a chynnal a chadw.
3. bod Pwyllgor y Clwb Hwyllo yn gydymffurfio gyda holl argymhellion swyddogion cynllunio CBSC er mwyn sicrhau bod y broses briodol ar waith

Y Clerc i weithredu ar hyn drwy e-bostio Gwasanaethau Cynllunio Conwy

Penderfynwyd

ei dderbyn a gwneud nodyn ohono

Bu i'r Cadeirydd gloi'r cyfarfod am 18:50 ac estynnodd ddiolch i bawb am fynychu.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7yh ar nos Fercher, Medi'r 1^{af} un ai yn Siambr y Cyngor neu ar-lein

Llofnodwyd gan Gadeirydd y cyfarfod _____

Dyddiad _____